# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2024

**YN BRESENNOL (Yn y Siambr):** Y Cynghorydd M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
A. Evans J.K. Howell H. Jones B.D.J. Phillips

**Cynghorwyr (Yn Rhithwir):**
S.A. Curry W.T. Evans D. Jones M.J.A. Lewis
K. Madge D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
D. Paffett - Cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys

**Swyddogion sydd hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd
R. Morris, Swyddog Cymorth i'r Aelodau
K Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddogion sydd hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
M. Runeckles, Swyddog Cymorth i'r Aelodau

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00yb - 11.27yb**

[Noder: Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod yn mynd i newid trefn y materion ar yr agenda er mwyn i'r cais gan Mr Bernard Price gael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod oherwydd bod yr ymgeisydd yn cael problemau technegol].

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Louvain Roberts.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

4. **GORCHYMYNI'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

5. **MR BERNARD PRICE - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Bernard Price, o Barc Doc y Gogledd, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Price.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Price ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Price yn cael ei ddiddymu.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddiddymu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Mr Bernard Price.**

<u>Rheswm</u>

Roedd y ffeithiau a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros ddiddymu'r drwydded.

6. **MISS CHELSEA LOUISE MORSE - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu at y cais gan Miss Chelsea Louise Morse o 13 Heol Troserch, Llangennech am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a gofynnodd am ohirio ystyried y cais tan y cyfarfod nesaf er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Miss Chelsea Louise Morse tan un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.**

## 7. MR DAVID ANDREW JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr David Andrew Jones o 15 Waun Burgess, Caerfyrddin yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Jones.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jones ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jones yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr David Andrew Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 8. R RADOSLAW ANDRZEJ WOJTASIAK - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Radoslaw Andrzej Wojtasiak o 15 Heol Langland, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Wojtasiak.

Roedd y Pwyllgor wedi cyfweld â Mr Wojtasiak, drwy ei gynrychiolydd, ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu a chynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Wojtasiak yn cael ei ddiddymu.

Ar hynny

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNYWYD y byddai Mr Radoslaw Andrzej Wojtasiak yn cael rhybudd terfynol, gydag argymhelliad ei fod yn mynd ar gwrs rheoli dicter.**

Rheswm

Nid oedd y ffeithiau a gyflwynwyd yn rheswm digonol dros atal neu ddiddymu'r drwydded.

**9. MRS NICOLA JAYNE JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mrs Nicola Jayne Jones, o 88 Stryd Fawr, Caecoed, Llandybïe, Rhydaman yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r awdurdod.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod nad oedd Mrs Jones yn bresennol ac y dylai'r Pwyllgor drafod ei chais yn ei habsenoldeb.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mrs Jones.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod trwydded Mrs Jones yn cael ei diddymu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Mrs Nicola Jones yn cael ei diddymu.**

Rheswm

Roedd y ffeithiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros ddiddymu'r drwydded.

**CHAIR** **DATE**